| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Partneriaethau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Gorffennaf 2014** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Archwilio** |
| **Teitl:** | **Rhaglen Waith Archwilio** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn cyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Archwilio Partneriaethau i'r aelodau ei hystyried.

**2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar faterion perthnasol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor:

3.1 ystyried yr wybodaeth a ddarparwyd a chymeradwyo, adolygu neu addasu eu rhaglen waith i'r dyfodol fel yr ystyrid yn briodol: a

3.2 phenodi cynrychiolydd a dirpwy gynrychiolydd ar y Grŵp Tasg a Gorchwyl Tai Fforddiadwy.

**4. Manylion am yr adroddiad**

4.1 Mae Erthygl 6 yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn nodi cylch gorchwyl, swyddogaeth ac aelodaeth pob Pwyllgor Archwilio, tra bod rheolau trefniadaeth ar gyfer y pwyllgorau archwilio i'w cael yn Adran 4 o'r Cyfansoddiad.

4.2 Mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi rhaglen waith ar gyfer unrhyw waith yn y dyfodol a'u bod yn adolygu'r rhaglen. Drwy adolygu a blaenoriaethu materion, mae modd i aelodau sicrhau fod y rhaglen waith yn cyflwyno rhaglen dan arweiniad yr aelodau.

4.3 Arfer sydd wedi'i fabwysiadu yn Sir Ddinbych ers nifer o flynyddoedd yw bod pwyllgorau archwilio'n cyfyngu ar nifer yr adroddiadau a ystyrir mewn unrhyw gyfarfod i uchafswm o bedwar, yn ogystal ag adroddiad rhaglen waith y Pwyllgor ei hun. Amcan y dull hwn yw hwyluso cael trafodaeth fanwl ac effeithiol ar bob eitem.

4.4 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd i ddod fel y nodwyd yn atodiad 1 a'i chymeradwyo, ei hadolygu neu ei diwygio yn ôl yr angen. Wrth benderfynu ar raglen waith, gofynnir i

aelodau ystyried:

- materion a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor
- y materion a gyfeiriwyd atynt gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio
- perthnasedd i flaenoriaethau'r Pwyllgor/Cyngor/gymuned
- Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- bodloni'r llwyth gwaith
- amseroldeb
- canlyniadau
- gwybodaeth a materion allweddol i'w cynnwys mewn adroddiadau
- a fydd yr aelod Cabinet arweiniol perthnasol yn cael gwahoddiad i fod yn bresennol (gan ystyried a yw eu presenoldeb yn angenrheidiol neu'n ychwanegu gwerth). (Ym mhob sefyllfa bydd y penderfyniad yn cael ei rannu gyda'r aelod arweiniol perthnasol)
- cwestiynau i'w gofyn i swyddogion / aelodau arweiniol y Cabinet

4.5 Wrth ystyried eitemau i'w cynnwys yn y rhaglen waith i'r dyfodol, efallai y byddai aelodau'n cael budd o ystyried y cwestiynau canlynol hefyd wrth benderfynu a yw eitem yn addas neu beidio ar gyfer y rhaglen waith:

- beth yw'r mater?
- pwy yw'r budd-ddeiliaid?
- beth sy'n cael ei ystyried mewn man arall
- beth sydd angen i archwilio ei wybod? a
- pwy sy'n gallu cynorthwyo?

4.6 Fel y nodwyd ym mharagraff 4.2 mae Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn gofyn i bwyllgorau archwilio baratoi rhaglen ar gyfer gwaith y dyfodol a'u bod yn eu hadolygu. Er mwyn cynorthwyo'r broses o flaenoriaethu adroddiadau, os yw'r swyddogion o'r farn fod pwnc yn haeddu'r amser i gael ei drafod ar raglen fusnes y Pwyllgor, mae'n rhaid iddynt wneud cais ffurfiol i'r Pwyllgor i ystyried derbyn adroddiad ar y pwnc hwnnw. I wneud hyn, mae'n rhaid cyflwyno 'ffurflen gynnig' sy'n nodi diben, pwysigrwydd a chanlyniadau posib yr eitem. Does dim cais o'r fath wedi dod i law i'w ystyried yn y cyfarfod presennol.

4.7 Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet

Wrth benderfynu ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol mae'n ddefnyddiol i bwyllgorau archwilio ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet. I'r diben hwn, mae rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

4.8 Datblygiad Penderfyniadau'r Pwyllgor

Yn Atodiad 3 o'r adroddiad hwn mae tabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn cynghori'r aelodau ar ddatblygiadau yn sgil y penderfyniadau.

4.9 <u>Grŵp Tasg a Gorchwyl Tai Fforddiadwy</u>
Bydd Aelodau'n ymwybodol o gynnig diweddar i sefydlu grŵp tasg a gorchwyl i ymchwilio i amrywiol faterion yn ymwneud â thai fforddiadwy. Bellach mae Cylch Gwaith y Grŵp wedi ei lunio ac mae copi ohono yn atodedig fel Atodiad 4 i'r adroddiad hwn. Felly, yn unol â'r Cylch Gwaith, gofynnir i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd a dirprwy gynrychiolydd ar gyfer y Grŵp.

**5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

Dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Cyfarfu'r Grŵp ar 3 Gorffennaf 2014. Ni chyfeiriwyd unrhyw bynciau ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor hwn.

**5. Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio**

O dan drefniadau archwilio'r Cyngor mae Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio (GCIGA) yn gweithredu fel pwyllgor cydlynu. Mae cyfarfod nesaf y Grŵp i'w gynnal ar 3 Gorffennaf 2014. Bydd unrhyw argymhellion a wneir gan y Grŵp a fydd yn effeithio ar waith y Pwyllgor hwn yn cael eu hadrodd ar lafar yn y cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2014.

**6. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd archwilio effeithiol yn gymorth i'r Cyngor gynnal y blaenoriaethau corfforaethol yn unol ag anghenion cymunedau a dymuniadau trigolion. Bydd datblygu ac adolygu'r rhaglen waith cydlynol yn barhaus yn cynorthwyo'r Cyngor i fonitro ac adolygu materion polisi.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?**

Ni chynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb er diben yr adroddiad hwn gan nad yw ystyried rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor yn debygol o gael effaith andwyol neu annheg ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi'u diogelu.

**8. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'n bosib y bydd yn rhaid i wasanaethau neilltuo amser swyddog i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r eitemau a nodwyd yn y rhaglen waith a chydag unrhyw gam gweithredu ar ôl ystyried yr eitemau hynny.

**9. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal?**

Does dim angen cynnal ymgynghoriad ar yr adroddiad hwn.  Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun a'r ystyriaeth a roir gan y Pwyllgor i'w raglen waith ar gyfer y dyfodol yn gyfystyr ag ymgynghori gyda'r Pwyllgor o ran ei raglen gwaith i'r dyfodol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes risg wedi ei ganfod o ran y Pwyllgor yn ystyried ei raglen gwaith i'r dyfodol.  Fodd bynnag, wrth adolygu ei raglen waith yn rheolaidd gall y Pwyllgor sicrhau bod meysydd sy'n peri pryder yn cael eu hystyried a'u harchwilio fel y maent yn dod i'r amlwg a bod argymhellion yn cael eu gwneud er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hynny.

**11. Grym i wneud Penderfyniad**

Yn unol ag Erthygl 6.3.7 Cyfansoddiad y Cyngor mae'n rhaid i bwyllgorau archwilio'r Cyngor baratoi rhaglen gwaith i'r dyfodol a'i hadolygu.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Archwilio
Rhif Ffôn: (01824) 712554
E-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk